

Elin Jones AS  
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

2 Gorffennaf 2020

Annwyl Lywydd

### **Cyfarfodydd yn ystod toriad yr haf 2020**

Nodaf fod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno y dylid adalw'r Senedd ar 5 a 26 Awst i drafod canlyniad adolygiadau tair wythnos Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau coronafeirws.

Fel y Pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21, rydym wedi adrodd i'r Senedd ar yr holl reoliadau diwygio i'r prif reoliadau coronafeirws; er enghraifft gan dynnu sylw'r Senedd at oblygiadau pwysig y ddeddfwriaeth i hawliau dynol.

Credwn fod yr adroddiadau hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr i'r Aelodau i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaeth graffu yn llawn a phenderfynu yn y pen draw a ddylai'r rheoliadau diwygio aros mewn grym.

Er mwyn i ni gynllunio unrhyw gyfarfodydd y mae angen i ni eu trefnu yn ystod toriad yr haf i gyflawni ein swyddogaeth graffu o dan Reol Sefydlog 21, byddai'n ddefnyddiol gwybod ymlaen llaw sut mae'r Pwyllgor Busnes yn bwriadu trefnu dadleuon ar ddiwygio rheoliadau sy'n codi adolygiad Llywodraeth Cymru. Yn ein barn ni, mae'n bwysig sicrhau nad yw rheoliadau diwygio yn destun dadl a phleidlais heb adroddiad priodol gan ein pwyllgor.

Rydym yn rhagweld, ar sail yr hyn a welwyd hyd yma, pe bai adolygiad nesaf Llywodraeth Cymru ar 9 Gorffennaf yn arwain at ddiwygio rheoliadau, bydd y rhain yn cael eu trafod ac yn destun pleidlais ar 5 Awst, tra bydd unrhyw reoliadau diwygio pellach sy'n deillio o adolygiad ar 30 Gorffennaf yn cael eu trafod ac yn destun pleidlais ar 26 Awst. Wrth edrych ymhellach ymlaen, rydym yn yr un modd yn rhagweld y byddai unrhyw reoliadau sy'n codi o'r adolygiad ar 20 Awst yn cael eu trafod ac yn destun pleidlais ym mis Medi.



**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddDCC@senedd.cymru

 0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddLJC@senedd.wales

 0300 200 6565

Byddem yn falch pe gallech gadarnhau ar fyrder a yw'r ddealltwriaeth hon yn gywir.  
Bydd yn ein galluogi i wneud trefniadau amserol, ac rwy'n ymwybodol bod cynnal  
cyfarfodydd pwyllgor yn ystod cyfnod toriad yn esgor ar oblygiadau i aelodau'r pwyllgor  
a'r holl staff sy'n cefnogi rhith-bwyllgor.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**  
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg  
We welcome correspondence in Welsh or English

